



## Tasg 1

## Pobl ifanc – ac arian

- Mewn grŵp, trafodwch y cwestiynau yma:

Sut ydych chi'n gwario arian?

O ble ydych ch'n cael arian?

Mae help i chi ar y dudalen nesaf.

Llenwch y grid yma pan rydych chi'n siarad:

| Enwau                           |  |  |  |
|---------------------------------|--|--|--|
| Faint o arian poced?            |  |  |  |
| Anrhegion pen-blwydd / Nadolig? |  |  |  |
| Ennill arian?<br>(Sut?)         |  |  |  |
| Gwario arian?<br>(Sut?)         |  |  |  |

## Geirfa

|        |         |        |          |
|--------|---------|--------|----------|
| ennill | to earn | gwario | to spend |
|--------|---------|--------|----------|

Ewch i'r dudalen nesaf.



Dw i'n cael ... fel anrheg pen-blwydd / Nadolig.  
Dw i'n cael ... yr wythnos / y mis.

O ble wyt ti'n cael arian?

Sut wyt ti'n gwario arian?

Dw i'n prynu ...  
Dw i'n talu am ...  
Dw i'n rhoi ... i ...

**ARIAN**

Faint? Gan bwy?

Ydw. / Nac ydw.

Wyt ti'n cael arian ar dy ben-blwydd?

Wyt ti'n ennill arian?


Ydw. / Nac ydw.

Faint wyt ti'n ennill?

Dw i'n ennill ...

Beth wyt ti'n wneud?

Dw i'n ...



## 2. Darllenwch y fforwm eto:

|          |  |   |
|----------|--|---|
| Paul     |   | Arian? Dw i ddim yn cael arian poced. Does gen i ddim arian.  |
| Sofia    |   | Beth? Dim arian poced? Beth am weithio am arian?  |
| Paul     |   | Ond sut? Beth ddylwn i wneud?   |
| Kristian |   | Dw i ddim yn cael llawer o arian poced ond dw i'n cael arian fel anrhegion pen-blwydd ac anrhegion Nadolig. Dw i'n ofalus iawn pan dw i'n gwario arian. Dw i'n ofalus iawn pan dw i'n prynu dillad. |
| Anissa:  |  | Sut mae bod yn ofalus gydag arian?  |

- a. Mae Paul yn gofyn "Beth ddylwn i wneud?"

Meddyliwch am syniadau da ac yna rhowch gyngor i Paul ar gyfer gweithio am arian.

Dylet ti **weithio**.

Dylet ti **olchi** ...

Dylet ti **ofyn** ...

Cyngor i Paul:

Ewch i'r dudalen nesaf



- b. Mae Kristian yn dweud, "Dw i'n ofalus iawn pan dw i'n prynu dillad."  
Dwedwch wrth ffrind sut i fod yn ofalus iawn pan mae'n prynu dillad.  
Gnewch nodiadau i ddechrau.  
Dyma rai geiriau i'ch helpu chi:

|   |  |  |   |
|---|--|--|---|
| label, labeli<br>siopau drud<br>yr archfarchnad<br>y farchnad<br>bargen, bargeinion | label, labels<br>expensive shops<br>the supermarket<br>the market<br>bargain, bargains | prynu<br>matsio<br>yr un lliw â<br>ail-law | to buy<br>to match<br>the same colour as<br>second hand |
|---|--|--|---|

Cyngor i ffrind:

2. Mae Anissa'n gofyn, "Sut mae bod yn ofalus gydag arian?"

Trafodwch hyn mewn grŵp.

Gnewch nodiadau.

Yna, rhowch gyngor i Anissa.

Dylet ti siopa yn ...

Dylet ti brynu ...

Dylet ti chwilio am ...

Ddylet ti ddim siopa yn ...

Ddylet ti ddim prynu ...

Ddylet ti ddim mynd i ...

Cyngor i Anissa:

3. Ydych chi'n ofalus gydag arian?  
Rhowch resymau dros eich ateb.